# GWERSI 2 a 3 - DEALL AGORIAD *DAN Y WENALLT*

## Tasg 1 – Teimlo'r awyrgylch

Pa fath o awyrgylch sydd wedi ei greu i ddechrau'r ddrama? Gwrandewch ar ddarlleniad o'r agoriad ac wrth wrando, gwnewch nodyn o'ch argraffiadau cyntaf chi – mae nodiadau a geiriau'n ddigon, nid oes angen brawddegau llawn.

## Tasg 2 – Datrys yr eirfa.

☹ Mae'n siŵr y bydd geiriau neu ddelweddau anodd eu deall yn y pennill/paragraff cyntaf. Tanlinellwch nhw.

😐 + 😐 Rhannwch eich rhestr chi gyda'ch partner. All ef/hi eich helpu? Allwch chi ei helpu ef/hi?

😐+☺+☺+😐 Pan fyddwch wedi datrys cymaint ag y gallwch, ymunwch â phâr arall yn y dosbarth i weld a allwch ddarganfod ateb i'r ystyron sydd ar goll ar eich taflen chi.

☺☺☺☺☺☺ Yn olaf, byddwn yn cael trafodaeth ddosbarth am eiriau oedd yn drafferthus er mwyn i bawb ddeall y rhan gyntaf yn dda.
Beth am ddefnyddio strategaeth debyg i'ch helpu gyda gweddill y darn? Mae geiriau anghyfarwydd efallai am fod T.James Jones wedi trosi'r ddrama i iaith ardal gogledd sir Gaerfyrddin dros hanner canrif yn ôl, ac wedi defnyddio iaith farddonol gyfoethog. Beth sy'n anghyfarwydd i chi?

### Tasg 3 – Canolbwyntio ar y dewis o eiriau.

Roedd trosi drama mor enwog â hon yn dasg enfawr. Fe lwyddodd T. James Jones i'r fath raddau nes i'w drosiad ddod yn glasur ei hunan, heb sôn am fod yn gyfieithiad llwyddiannus hefyd. Cyn edrych ar y gwreiddiol yn Saesneg, edrychwch yn fanwl ar ei ddewis o eiriau i greu'r naws a'r awyrgylch agoriadol.

Gan weithio gyda'ch partner, darllenwch y rhan gyntaf a uwch-oleuwch hyd at **15 gair unigol** (nid darnau maith) sy'n teimlo i chi fel geiriau allweddol i greu'r awyrgylch. Chwiliwch yn arbennig am eiriau sy'n apelio at y **llygad** a'r **glust.** Yna rhowch gylch o gwmpas y geiriau sy'n ymwneud â düwch neu dywyllwch.

Ar ôl gweithio ar y fersiwn Gymraeg, beth am ddarllen y fersiwn wreiddiol – neu wrando ar lais Dylan Thomas ei hun yn ei darllen? Roedd yn enwog am gyfoeth ei ddarlleniadau ar y radio ac mewn perfformiadau.

Gwrandewch ar http://www.youtube.com/watch?v=FjJt4P4w8io
Beth yw eich barn am drosiad T. James Jones o'r ddrama? A lwyddodd yn dda? A oes rhannau sy'n gweithio'n well yn Gymraeg nag yn Saesneg, hyd yn oed? Neu a oes rhywbeth ar goll?

## GWERS 3

### Tasg 1 – Gweld y darlun cyfan a'i ddeall.

Beth rydyn ni'n ei ddysgu am bentref Llareggub yn yr agoriad? Nodwch eich syniadau yma, gan rannu'r dasg o chwilio rhwng tri ohonoch, pe hoffech. Chwiliwch am fanylion bach sy'n creu'r darlun i ni.

| AMSER: |
|---|
| |

| LLEOLIAD: |
|---|
| |

POBL:

## Tasg 2 – Dod o hyd i 'siâp' yr ysgrifennu

Cip-ddarllenwch y darn unwaith eto, gan benderfynu beth yw PRIF ffocws pob rhan wrth i'r awdur ein cyflwyno ni i bentref Llareggub. Pam mae'r awdur yn llunio ei waith fel hyn?

1

2

3

4

## TASG 3 – Sylwi ar atalnodi

Mae hwn yn ddarn gweddol hir – ond sawl brawddeg sydd yna mewn gwirionedd? Pa un yw'r frawddeg fyrraf? Beth yw effaith hynny?

Pa fath o frawddegau ydyn nhw? Edrychwch ar sut maen nhw wedi eu hatalnodi.

Tybed pa fath o effaith mae'r patrymau brawddegau yma yn ei chael ar y ffordd rydych chi'n darllen, neu 'weld' *Dan y Wenallt* yn eich dychymyg? Ysgrifennwch rai meddyliau am hyn.

Oes gennych chi hoff frawddega, neu ran o frawddeg neu ddelwedd? Ysgrifennwch hi yma, a cheisiwch egluro pam rydych chi'n ei hoffi.

## TASG GREADIGOL/YMESTYNNOL

Dychmygwch eich bod yn gyfarwyddwr ffilm yn creu agoriad **Dan y Wenallt.** Sut byddech chi'n dymuno cyflwyno eich 8 saethiad cyntaf? Lluniwch fwrdd stori o 8 ffrâm, gan ddewis y geiriau i gyd-fynd â'r ddelwedd yn eich dilyniant gweledol chi.

## YSGRIFENNU PERSONOL – TASG GREADIGOL

Arbrofwch gyda'r testun. Torrwch e'n eiriau neu linellau o eiriau sy'n ddiddorol i chi a chwaraewch o gwmpas gydag aildrefnu eich darnau ar y dudalen ar ffurf cerdd rydd, neu ar ffurf siâp arwyddocaol i'r ddrama. Gludwch nhw, ac yna ewch ymlaen os hoffech chi i ddatblygu sut mae eich darn yn edrych gan ddefnyddio chelf neu waith digidol, gan greu rhywbeth newydd allan o'r ddrama.

Mae llawer o gerddorion ac artistiaid wedi eu hysbrydoli gan waith Dylan Thomas i greu darn o waith creadigol newydd sbon. Ymunwch â nhw!